The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | **Prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah (CQLCP)** |
| **Cyfeirnod y ffeil** | **EN010166** |
| **Statws** | **TERFYNOL** |
| **Awdur** | **Yr Arolygiaeth Gynllunio** |
| **Dyddiad** | **13 Rhagfyr 2023** |
| **Cyfarfod gydag** | **Uniper** |
| **Lleoliad** | **Microsoft Teams** |
| **Amcanion y cyfarfod** | **Cyfarfod Cychwynnol** |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol/ cysylltiadau ychwanegol i rannu'r nodyn cyfarfod |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd, a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

Esboniodd yr Arolygiaeth y gallai fod oedi o hyd at chwe mis cyn cyhoeddi'r nodyn cyfarfod, neu hyd nes bod cais cwmpasu ffurfiol wedi cael ei gyflwyno (os bydd Ymgeisydd yn gofyn amdano am resymau masnachol).

## Cyflwyniad i'r prosiect

Rhoddodd yr Ymgeisydd drosolwg o Brosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah (CQLCP) a darparodd fanylion am y Datblygiad Arfaethedig. Cynigir lleoli'r Prosiect CQLCP yn ardal Glannau Dyfrdwy yng Ngogledd Cymru, i ddarparu cyfleuster cynhyrchu pŵer hyblyg sy'n gallu cynyddu a lleihau mewn modd carbon isel. Ystyrir bod y Prosiect yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) o dan adrannau 15(1) a 3(a) Deddf Cynllunio 2008 gan ei fod yn cynnwys y posibilrwydd o adeiladu gorsaf gynhyrchu ar y tir (yng Nghymru) â chapasiti o fwy na 350 megawat (MW).

Mae'r Prosiect CQLCP yn orsaf bŵer oddeutu 1.1 gigawat (GW) sy'n gallu dal carbon. Byddai'r Prosiect yn cael ei gyflawni mewn dau gam. Byddai'r cam cyntaf yn cynnwys uned oddeutu 550MW a allai ddal hyd at 1.9 o dunelli metrig (Mt) o Garbon Deuocsid ($CO_2$) y flwyddyn erbyn 2030. Yna, byddai'r ail gam yn ymestyn i oddeutu 1.1 GW. Esboniodd yr Ymgeisydd fod lleoliad arfaethedig y Prosiect yn agos i seilwaith storio a chludo $CO_2$ trwy biblinell $CO_2$ arfaethedig HyNet.

Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu defnyddio piblinellau presennol a gadwyd a'u haddasu at ddibenion gwahanol a chadw rhywfaint o'r seilwaith sy'n gysylltiedig ag asedau presennol, gan gynnwys gorsaf bŵer nwy 1.4GW. Mae un o is-orsafoedd y Grid Cenedlaethol yn agos i'r safle, sy'n cyflwyno opsiynau ar gyfer cysylltu â'r is-orsaf hon, yn amodol ar waith ychwanegol.

Dywedodd yr Ymgeisydd efallai y bydd angen Trwydded Forol gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a chaffael hawliau dros dir yn orfodol.

Gofynnodd yr Arolygiaeth i'r Ymgeisydd ba ganran o allyriadau y byddai'r Prosiect yn eu dal; cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddai'r Prosiect yn ceisio dal tua 95% o allyriadau. Gofynnodd yr Arolygiaeth b'un a fyddai Afon Dyfrdwy yn cael ei defnyddio i gludo deunyddiau i'r safle a dywedodd yr Ymgeisydd mai'r bwriad cychwynnol yw cludo deunyddiau i'r safle ar y ffyrdd, yn amodol ar asesiadau parhaus.

## Cwmpasu

Cyflwynodd yr Ymgeisydd fap yn cynnwys ffin llinell goch ar gyfer y prosiect wedi'i seilio ar 'senario achos gwaethaf' i gynnwys pob elfen ar y cam cwmpasu. Mae'r prif safle'n cynnwys yr orsaf bŵer nwy bresennol, gwaith trin nwy a dau osodiad presennol ar ben y tir (AGI). Yn rhan o dybiaethau ar gyfer y safle, bydd y gwaith trin nwy presennol a'r cyfleusterau storio ar y safle yn cael eu dymchwel. Gallai'r gwaith dymchwel fod ar wahân i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) neu gellid ei gynnwys ynddo. Dangosodd yr Ymgeisydd y pwyntiau mynediad presennol a dywedodd y byddent yn parhau i gael eu defnyddio ar gyfer mynediad.

Mae'r Ymgeisydd yn cynnal arolygon ecolegol o'r safle ar droed ac mae wedi amlygu rhai ardaloedd posibl ar gyfer gwella bioamrywiaeth. Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu ceisio Barn Gwmpasu i lywio'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd (EIA) a chyflwynodd restr o asesiadau y mae'n debygol y bydd yr adroddiad cwmpasu'n cyfeirio atynt, gan gynnwys Ansawdd Aer, yr Amgylchedd Dŵr a Pherygl Llifogydd, ac Effeithiau Cronnol a Chyfunol.

Un ystyriaeth amgylcheddol allweddol a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yw perygl llifogydd. Bu'r safle'n halwyndir yn flaenorol (ardal o dir isel sydd o dan ddŵr hallt yn rheolaidd). Yn y 1950au, codwyd y tir hwn un metr trwy bwmpio tywod o'r afon i gynyddu uchder y tir. Esboniodd yr Ymgeisydd fod yr ardal o fewn parth llifogydd tri ac felly ei bod yn ardal perygl llifogydd. Mae'n bosibl y bydd angen i'r ardal hon gael ei chodi un metr, hefyd. Mae asesiadau eraill yn parhau, gan gynnwys arolygon traffig.

Dangosodd yr Ymgeisydd fap arall yn amlinellu ardaloedd gerllaw Aber Afon Dyfrdwy sy'n destun nifer o ddynodiadau statudol, gan gynnwys Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), safle Ramsar a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

Bydd yr Ymgeisydd yn ystyried allyriadau ansawdd aer mewn perthynas ag aminau ac N-aminau, amonia ($NH_3$) ac uchder stac.

Bydd angen asesu'r seilwaith dŵr oeri a chaiff ei gynnwys yn y pynciau morol yn rhan o'r Adroddiad Cwmpasu.

## Ymgysylltu ac amserlen ddangosol

Amlinellodd yr Ymgeisydd ei gynllun ymgysylltu a rhoddodd amserlen ddangosol ar gyfer y Prosiect:

1. **Cyn-lansio** – i geisio cynyddu dealltwriaeth a chyfleu buddion posibl, wedi'i drefnu ar gyfer dechrau mis Ionawr 2024.
2. **Lansiad cyhoeddus** – i gynyddu ymwybyddiaeth ac agor llinellau cyfathrebu.
3. **Cais cwmpasu** – mis Chwefror 2024
4. **Ymgynghoriad anstatudol** – i rannu'r cynigion ag ystod eang o randdeiliaid ac ymgysylltu o flaen llaw ag Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) ym mis Chwefror / Mawrth 2024.
5. **Ymgysylltu'n barhaus** – cyfathrebu ac ystyried adborth yn barhaus
6. **Ymgynghoriad Statudol (a42, a47 ac a48)** – datblygu Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC) ac ymgynghori ag ACLlau. Disgwylir hwn ym mis Mehefin/Gorffennaf 2024.
7. **Adborth ôl-ymgynghori** – dadansoddi ac ystyried adborth, paratoi adroddiad ymgynghori, a sefydlu dolen adborth gyda rhanddeiliaid a chymunedau.
8. **Cyflwyno cais DCO** – mis Tachwedd 2024
9. **Penderfyniad DCO** – yn hwyr yn ystod Chwarter 1 (Ch1) 2026
10. **Gweithredu'n fasnachol** – 2030

Holodd yr Arolygiaeth b'un a oedd yr Ymgeisydd wedi ystyried cynhyrchu deunyddiau allweddol yn Gymraeg a ph'un a oes siaradwyr Cymraeg yn ei dîm i ymgysylltu â chymunedau. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd yn cynhyrchu deunyddiau dwyieithog ac y bydd siaradwyr Cymraeg o'i dîm yn bresennol mewn digwyddiadau ymgynghori.

Gofynnodd yr Arolygiaeth i'r Ymgeisydd beth oedd wedi sbarduno'r amserlen hon. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd mai'r sbardun oedd y nod o fod yn fasnachol weithredol erbyn 2030.

## Cyngor

O ran y cais disgwyliedig am Farn Gwmpasu, cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i roi sylw gofalus i'w ddisgrifiad o'r prosiect a sicrhau bod gwybodaeth dechnegol wedi'i chynnwys ynddo a'i fod yn amlygu sut mae'r Ymgeisydd wedi mynd i'r afael â phwyntiau allweddol.

Nododd yr Arolygiaeth orgyffyrddiad posibl o ran amseriad yr ymgynghoriad anstatudol ac ymgynghoriad cwmpasu'r Arolygiaeth. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i ystyried osgoi unrhyw orgyffyrddiadau ymgynghori, os oes modd, er mwyn peidio â drysu partïon sy'n ymateb i'r ymgynghoriad priodol.

Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i edrych ar brosiectau eraill yn nyfroedd Cymru, a restrir ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio (PINS), yn gysylltiedig ag ymagweddau at Drwyddedu Morol. At hynny, cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd ynghylch pwysigrwydd ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) cyn gynted â phosibl.

Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i dreialu unrhyw safle rhannu ffeiliau cyn cyflwyno’r cais am Farn Gwmpasu EIA, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei rannu mewn ffordd y gall PINS ei gyrchu.